# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 178(v6)

## Enwebu Prif Weinidog o dan Reol Sefydlog 8.

## 1 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(5 munud)

[Gweld y Cwestiynau]

## 2 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y contract sector cyhoeddus sydd wedi'i ddyfarnu i Interserve ar hyn o bryd i ymgymryd â gwaith adeiladu yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful?

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Dadl: Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol

(60 munud)

**NDM6896** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol ddydd Llun 10 Rhagfyr 2018.

2. Yn nodi ei bod yn 70 mlynedd ers mabwysiadu'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y twf mewn mudiadau gwleidyddol sy'n gwrthod egwyddorion y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, a galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei gwaith i fynd i'r afael ag eithafiaeth yn cynnwys mesurau rhagweithiol i atal eithafiaeth asgell dde.

**Gwelliant 2 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU yn cydnabod bod yr holl hawliau a nodir yn natganiad y Cenhedloedd Unedig o hawliau dynol yn un mor bwysig â'i gilydd.

Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd o ran rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, amddiffyn rhyddid crefydd neu gred, rhoi terfyn ar anghydraddoldeb a gwahaniaethu, a hyrwyddo democratiaeth.

## 5 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

(15 munud)

**NDM6899** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3

## Cyfnod pleidleisio (Busnes y Llywodraeth)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Atal Gwastraff ac Ailgylchu

(30 munud)

**NDM6893** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnig ar gyfer Bil ar atal ac ailgylchu gwastraff.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) atal gwastraff drwy osod gofynion ailgylchu ar gynhyrchwyr bwyd a manwerthwyr o ran deunydd pacio a gwastraff deunydd pacio; a

b) cyflwyno cyfrifoldebau estynedig ar y cynhyrchydd i sicrhau bod costau ailgylchu a rheoli gwastraff yn cael eu rhannu yn deg, gyda chynhyrchwyr yn cyfrannu at gost ariannol triniaeth ar ddiwedd bywyd eu cynnyrch.

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Cyflog Byw

(60 munud)

**NDM6860** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi yr adroddiad gan Ysgol Fusnes Caerdydd, 'The Living Wage Employer Experience'.

2. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan 174 o gyflogwyr ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru i dalu cyflog byw go iawn i'w cyflogeion.

3. yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) nodi'r mesurau i gefnogi mwy o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i fabwysiadu'r cyflog byw go iawn a dod yn gyflogwyr cyflog byw go iawn achrededig; a

b) ystyried cryfhau y Cod ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi mewn perthynas â'r cyflog byw go iawn.

The Living Wage Employer Experience (Saesneg yn unig)

Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

**Cefnogwyr**
**David Rees (Aberafan)**
**Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)**
**Hefin David (Caerffili)**
**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)**
**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**
**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**
**Mick Antoniw (Pontypridd)**
**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**
**Rhianon Passmore (Islwyn)**
**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**
**Vikki Howells (Cwm Cynon)**

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig - Rhwystrau Carthffosydd

(60 munud)

**NDM6898 Gareth Bennett (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Water UK ar ei astudiaeth ynghylch hancesi gwlyb yn blocio carthffosydd.

2. Yn gresynu at y ffaith y ceir tua 2,000 o rwystrau mewn carthffosydd bob mis ledled Cymru ac yr achosir llawer ohonynt gan bobl yn fflysio eitemau traul fel ffyn cotwm a hancesi gwlyb i lawr y toiled.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gwaith ar gyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig y tu hwnt i fwyd a diod i gynnwys eitemau traul fel hancesi gwlyb a ffyn cotwm.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer profi cynhyrchion fel hancesi gwlyb a ffyn cotwm ar sail rheoleiddiol; ac os bydd cynhyrchion o'r fath yn methu prawf newydd y diwydiant dŵr i weld a ellir eu fflysio, rhaid i gynhyrchwyr

becynnu'r cynhyrchion hynny gyda logo clir, trawiadol ac amlwg sy'n nodi na ellir eu fflysio.

Water UK - Wipes in Sewer Blockage Study (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Julie James (Gorllewin Abertawe)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru gyda chwmnïau dŵr er mwyn pwyso a mesur opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem lle y mae defnyddiau traul yn achosi i doiledau flocio.

**Gwelliant 2 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â Dŵr Cymru ac asiantaethau eraill i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran defnyddiau traul er mwyn lleihau rhwystrau yn y system garthffosiaeth.

**Gwelliant 3 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r posibiliadau o ddefnyddio trethi newydd i leihau'r defnydd o ddefnyddiau traul.

## 9 Cyfnod pleidleisio (Busnes y Cynulliad)

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6897** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Cyfraith Lucy: yr ymgyrch i wella lles anifeiliaid drwy wahardd gwerthu a bridio cŵn bach a chathod bach gan siopau anifeiliaid anwes a'r holl werthwyr trydydd parti masnachol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2019